Skills INSIGHT

Summit SKILLS

Y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer
Peirianneg Gwasanaethau Adeiladau

RHIFYN 14 : GWANWYN 2009

Effeithiau ad-drefnu'r Llywodraeth

Yn dilyn y newidiadau diweddar i swyddfa'r Cabinet a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth, mae SummitSkills wedi bod yn edrych ar oblygiadau posib hyn ar ein perthynas gyda'r gweinidogion a'r gweision sifil yr ydym yn ymwneud â hwy.

Ffurfiwyd adran newydd drwy gyfuno elfennau o'r Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio (BERR) a'r Adran Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau (DIUS) i greu'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau. Ei phrif rôl fydd adeiladu gallu Prydain i gystadlu yn yr economi fyd-eang.

Mewn cydweithrediad â'r gynghrair cynghorau Sgiliau Sector, mae SummitSkills yn y broses o gwrdd â rhai o'r amryw weinidogion yr ydym yn gweithio â hwy i ganfod pa effeithiau y gallai'r newidiadau hyn eu cael ar ein gweithgareddau.

Dywedodd prif weithredwr SummitSkills Keith Marshall OBE: "Rydym wedi gweithio'n agos gyda gweinidogion fel yr Arglwydd Young, sy'n cadw'r cyfrifoldeb dros y mesur prentisiaethau, a byddaf yn siarad yng Ngrŵp Seneddol yr holl Bleidiau ochr yn ochr â Kevin Brennan, y Gweinidog Gwladol dros Brentisiaethau sydd newydd ei benodi. Mae'n hollbwysig ein bod yn parhau i fuddsoddi yn sgiliau ein sector er mwyn cyfrannu at economi flaengar a chystadleuol ar gyfer y dyfodol."

Mae manylion llawn yr holl newidiadau gweinidogol ar wefan Rhif 10: www.number10.gov.uk a gellir gweld aelodau Cabinet yr Wrthblaid ar wefan y Ceidwadwyr: www.conservatives.com

Byddwn yn gosod manylion unrhyw ddatblygiadau pellach ar ein gwefan wrth iddynt gael eu cyhoeddi: www.summitskills.org.uk

Yn y rhifyn hwn…

FGas
Os ydych yn trin rhewyddion, dyma'r hyn sydd angen i chi ei wybod er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith.

Yn ddiflewyn ar dafod
Mae llawlyfr newydd SummitSkills yn dweud wrthych amdanom ni a'r gwaith yr ydym yn ei wneud i'n sector.

Proffil cyflogwr
Barn Kevin McCallister ar gyflwyno gwasanaeth o'r radd flaenaf.

Dwyrain Lloegr
Darllenwch pam y gall gwella sgiliau roi ein sector ar y blaen o safbwynt adferiad y rhanbarth.

Gogledd Iwerddon
Ehangu datblygu hyfforddiant cyrsiau technoleg amgylcheddol.

Yr Alban
Hyfforddiant rheoli am ddim i'ch helpu i wella effeithlonrwydd eich busnes.

Cymru
Arian newydd ar gael yng Nghymru i helpu i uwchsgilio yn ystod y dirywiad.

Mwy o gefnogaeth yn y dirwasgiad

Mae SummitSkills wedi sefydlu is-grŵp effaith arbennig i helpu cefnogi'r sector peirianneg gwasanaethau adeiladu yn ystod y dirwasgiad.

O ganlyniad y chwe chyfarfod a gynhaliwyd hyd yma, rydym wedi:

- Rhannu ein hymchwil ar y dirwasgiad gyda chyflogwyr a rhanddeiliaid allweddol ar draws y DU
- Datblygu cyngor gyrfaoedd sector yn benodol i Loegr, Gogledd Iwerddon a Chymru
- Gweithio gyda darparwyr hyfforddiant i ganfod lleoliadau cyflogwyr i alluogi prentisiaid i gwblhau eu profiad gwaith a chynnal safonau cymhwysedd
- Darparu arweiniad ar wneud prentisiaid yn ddi-waith o bosib a recriwtio newydd-ddyfodiaid
- Darparu cyngor i ddarparwyr hyfforddiant i helpu cefnogi cynnal y ddarpariaeth ar gyfer y sector yn ystod y dirywiad, yn ogystal â helpu i'w ail-alinio ar gyfer y gofynion twf a ddisgwylir o ganlyniad i'r dirwasgiad mewn perthynas â thechnolegau amgylcheddol
- Cefnogi mentrau dirwasgiad penodol i'n sector, mewn cydweithrediad â gweinyddiaethau datganoledig y DU, gan amlygu cyllid a chefnogaeth ariannol

Mae SummitSkills yn parhau i weithio'n galed, mewn partneriaeth â darparwyr hyfforddiant, cyflogwyr, colegau a rhanddeiliaid, i nodi cyfleoedd gwaith i brentisiaid sydd wedi colli eu lle.

Mae ein hymchwil manteision costau yn dangos manteision datblygu prentisiaethau i'n sector, ac yn annog cyflogwyr i ddefnyddio timau sgiliau cymysg sy'n cynnwys prentisiaid, gan helpu i gyflawni'r gwerth gorau ar eu buddsoddiad mewn hyfforddiant sgiliau. Gallwch ganfod mwy a darllen yr adroddiad llawn ar ein gwefan: www.summitskills.org.uk/costbenefit

Offeryn am ddim i entrepreneuriaid y sector

Rydym yn falch i gyhoeddi lansiad Hanfodion Menter, offeryn ar-lein am ddim gan SummitSkills i wneud rheoli a gwella sgiliau menter yn syml ac yn ddidrafferth.

EnterpriseEssentials

Fe'i gynlluniwyd i helpu perchnogion a rheolwyr busnesau bach yn y sector peirianneg gwasanaethau adeiladau i roi cychwyn arni, tyfu busnes presennol neu gynllunio datblygu ar gyfer y dyfodol. Mae'r system yn caniatáu i chi symud ymlaen yn eich pwysau, gan roi mynediad i chi i gefnogaeth ac arweiniad arbenigol ar hyd y ffordd.

Mae Hanfodion Menter yn seiliedig ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Menter, set o safonau a gydnabyddir yn genedlaethol o arfer da sy'n disgrifio'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i sefydlu busnes bach.

I gael gwybod mwy ac i roi cychwyn arni, ewch i adran Hanfodion Menter ein gwefan yn www.summitskills.org.uk/enterprise neu am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'ch rheolwr gweithrediadau SummitSkills lleol yn www.summitskills.org.uk/nations

A ydych chi'n ddigon da?

Mae SummitSkills yn ceisio pobl dalentog o beirianneg gwasanaethau adeiladau i ddod yn llysgenhadon i helpu recriwtiaid newydd posib ddarganfod y cyfleoedd gyrfa ardderchog y gall ein sector eu cynnig.

Wedi'u cefnogi gan SummitSkills mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau fel cyflwyniadau mewn ysgolion, ffeiriau gyrfaoedd, diwrnodau agored ac ymweliadau â safleoedd, mae llysgenhadon yn unigolion uchel eu parch sydd eisoes yn gweithio mewn peirianneg gwasanaethau adeiladau sy'n ymgysylltu â grwpiau bach o bobl ifanc i hybu cyfleoedd gyrfa posib. Maent yn gwirfoddoli i rannu eu gwybodaeth a'u profiad, a gallant ddod o unrhyw lefel o dechnegydd crefft i reolwr.

Rydym yn gweithredu'r cynllun llysgenhadon mewn partneriaeth â STEMNET, y sefydliad cenedlaethol sy'n hybu Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM), sydd â rhwydwaith o fwy na 19,000 o lysgenhadon wedi'u cofrestru'n genedlaethol ar draws pob sector. Mae SummitSkills wedi cynhyrchu llawlyfr sy'n egluro mwy am y cynllun a sut y gallwch gymryd rhan. Am gopi y gellir ei lawrlwytho, ewch i'n gwefan yn www.summitskills.org.uk/ambassadors

Os ydych yn credu eich bod yn addas ac yr hoffech gymryd rhan, e-bostiwch enquiries@summitskills.org.uk neu ffoniwch SummitSkills ar 01908 303960 am fwy o fanylion.

Y safbwynt o'r man hwn

Barn prif weithredwr SummitSkills Keith Marshall OBE ar y newyddion sy'n effeithio ar beirianneg gwasanaethau adeiladau:

Rydym wedi gweld set eithriadol o amgylchiadau yn arwain at y newidiadau diweddar yn y Llywodraeth. Un o'n prif bryderon wrth gwrs yw i ba raddau y gallai'r newidiadau hyn effeithio ar y berthynas yr ydym wedi'i hadeiladu â'r amryw weinidogion yr ydym yn ymgysylltu â hwy. Mae gan SummitSkills rôl gynyddol bwysig i'w chwarae yn strategaeth sgiliau'r Llywodraeth ac nid yw ein ffocws wedi newid. Er bod rhai o'r gweinidogion wedi newid, da yw gweld bod nifer ohonynt wedi aros yr un peth.

Mae'r ffaith fod y cyfnodau ansicr hyn yn anrhagweladwy yn golygu, yn anochel, bod pobl yn pryderu am wario arian heddiw, ond mae'n hanfodol ein bod yn meddwl tua'r dyfodol. Mae buddsoddi mewn hyfforddiant heddiw yn golygu y gall busnesau fod yn fwy effeithiol yfory. Mae gwella sgiliau gweithlu ein sector yn cynyddu ein gallu i gystadlu, gan arwain ar well proffidioldeb wrth i ni ddod allan o'r dirwasgiad.

Mae buddsoddi mewn hyfforddiant heddiw yn golygu y gall busnesau fod yn fwy effeithiol yfory. Mae gwella sgiliau gweithlu ein sector yn cynyddu ein gallu i gystadlu, gan arwain ar well proffidioldeb wrth i ni ddod allan o'r dirwasgiad.

Mae SummitSkills yn parhau i weithio'n galed i gefnogi'r sector drwy'r cyfnod economaidd anodd hyn. Mae ein his-grŵp dirwasgiad yn helpu mewn ffyrdd penodol iawn i sicrhau bod popeth y gellir ei wneud yn cael ei wneud i helpu cwmnïau peirianneg gwasanaethau adeiladau gryfhau eu gwydnwch wrth i ni baratoi ar gyfer adferiad.

Mae cyflymder datblygiadau mewn technolegau amgylcheddol yn golygu ei fod yn bwysicach fyth i'n diwydiannau fod ar y blaen o safbwynt hyfforddiant sgiliau yn y meysydd twf. Credaf fod y gwaith da sy'n cael ei wneud gan ein grwpiau gweithredu rhanbarthol yn allweddol i gyflawni'r lefel o ansawdd sgiliau sydd ei hangen ar ein sector er mwyn cwrdd â thargedau'r Llywodraeth i leihau allyriadau carbon a chystadlu'n fwy effeithiol â chystadleuwyr Ewropeaidd. Bydd y sgiliau hyn yn chwarae rôl bwysig wrth gryfhau adferiad ein sector wrth i ni ddechrau ar dwf economaidd.

Roeddwn wedi gobeithio erbyn hyn i ddod â chanlyniadau ein hasesiad ail-drwyddedu i chi. Mae hwn yn gam pwysig i ni oherwydd rydym yn datblygu lefelau cynyddol o ddylanwad dros bolisi sgiliau, diwygio cymwysterau a'r ffordd y caiff darpariaeth ddysgu ei chyflwyno. Fodd bynnag, mae ychydig o oedi mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn, a chyhoeddir manylion ar ein gwefan cyn gynted ag y byddant ar gael.

Prif gystadleuwyr yn cynyddu'r pwysau

Mae Skill M&E yn edrych ymlaen at flwyddyn dda arall yn ei gais i ddod o hyd i'r peirianwyr mecanyddol a thrydanol gorau mewn peirianneg gwasanaethau adeiladau, wrth i'r cystadleuwyr baratoi i gymryd rhan yn y cystadlaethau sgiliau 2009.



Mae Skill M&E yn cynnwys cyfres o bedair cystadleuaeth a drefnir gan SummitSkills – SkillELECTRIC, SkillFRIDGE, SkillPIPE a SkillPLUMB – ac mae'r rhagrasys cyntaf eisoes wedi dewis rhai o ymgeiswyr gorau'r DU i gystadlu yn y rowndiau terfynol yn ddiweddarach eleni.

Cystadleuwyr SkillFRIDGE oedd y cyntaf i wynebu'r her wrth i ragrasys cynnar y gystadleuaeth rheweiddiad a thymheru gychwyn yng Ngholeg De Birmingham. Bydd y pum enillydd talentog yn ymuno â'u cyfoedion o Ogledd Iwerddon yn rownd derfynol y DU ym mis Gorffennaf.

Cynhaliwyd rhagrasys SkillELECTRIC a SkillPLUMB Cymru mewn digwyddiad yr oedd disgwyl mawr amdano yng Ngholeg Llandrillo, wedi'i gefnogi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a phrif noddwyr y diwydiant. Bydd yr enillwyr yn cymryd eu lle ochr yn ochr â'r cystadleuwyr cenedlaethol eraill yn rowndiau terfynol y DU yn yr hydref.

Wynebodd y trefnwyr her eithriadol yn ystod cystadleuaeth tri llinyn arbennig ym mis Mehefin, gan gynnal tair cystadleuaeth ar y cyd yng Ngholeg Adeiladu Leeds. Ymunodd gosodwyr pibellau â charfan o gystadleuwyr SkillELECTRIC a SkillPLUMB ar gyfer y gystadleuaeth SkillPIPE gyntaf erioed. Wedi'i gynllunio ar gyfer y diwydiant gosod pibellau gwresogi masnachol, y digwyddiad newydd hwn yw'r diweddaraf yn ein cyfres o gystadlaethau sgiliau, fydd yn gweld gorau'r goreuon o blith talent y DU yn brwydro am le yn y rowndiau terfynol yn ddiweddarach eleni.

Gallwch gael y newyddion diweddaraf, y canlyniadau a ffotograffau'r digwyddiadau ar wefan Skill M&E yn www.skillMandE.org.uk

Am fwy o wybodaeth, neu i gael gwybod mwy am becynnau nawdd sydd ar gael, ffoniwch Angela Buckingham ar 01908 303971 neu e-bostiwch angela.buckingham@summitskills.org.uk

Lledu'r gair

Mae SummitSkills wedi lansio llawlyfr newydd sbon i egluro yr hyn yr ydym yn ei wneud, sut yr ydym yn ei wneud a beth yw ein hanfod.

Yn glir ac yn syml, rydym yn disgrifio'r partneriaid mae SummitSkills yn gweithio gyda hwy, sut a pham yr ydym yn cynrychioli'r sector, ac yn amlinellu'r diwydiannau sy'n eistedd o fewn ôl-troed peirianneg gwasanaethau adeiladau.

Mae'r llawlyfr yn amlinellu ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'r cyngor y gall SummitSkills ei ddarparu, oll mewn fformat hawdd ei ddilyn ac mewn maint A5 defnyddiol.

Am gopi o'n llawlyfr, e-bostiwch enquiries@summitskills.org.uk neu lawrlwythwch gopi (ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg) o'n gwefan yn www.summitskills.org.uk/corporate

Ardystiad FGas yn orfodol bellach

Mae SummitSkills yn atgoffa unrhyw un sy'n trin rhewyddion FGas fel rhan o'u gwaith bod yn rhaid iddynt sicrhau bod eu busnes yn dal Tystysgrif Cwmni a gyflwynwyd gan Gorff Ardystio Cwmnïau, neu y byddant mewn perygl o gyflawni trosedd.

O 4 Gorffennaf 2009, daw hyn yn ofyniad cyfreithiol gorfodol i fusnesau sy'n gosod, cynnal neu'n gwasanaethu cyfarpar rheweiddiad, tymheru (RAC) neu bympiau gwres sefydlog sy'n cynnwys (neu a ddyluniwyd i gynnwys) rhewyddion FGas. Mae'r rheoliadau newyddion yn gymwys i gontractwyr cynnal RAC – yn cynnwys masnachwyr unigol – ac i ddefnyddwyr terfynol RAC a rheolwyr cyfleusterau sy'n cyflogi eu staff cymwys eu hunain i wneud y math hwn o waith.

REFCOM yw'r Corff Ardystio a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) i gyflwyno Tystysgrifau Cwmni. I gael gwybod mwy ac i wneud cais, ewch i wefan REFCOM yn www.refcom.org.uk neu ffoniwch 01768 860409.

Os oes gennych ymholiadau cyffredinol yn ymwneud ag FGas a rheoliadau oson, ewch i wefan DEFRA yn www.defra.gov.uk/fgas neu ffoniwch y llinell gymorth ar 0161 874 3663.

Gogledd Iwerddon

Cynyddu hyfforddiant gwyrdd

Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth ag Energy & Utility Skills, ConstructionSkills ac Action Renewables yng Ngogledd Iwerddon i ddiwygio'r cyrsiau hyfforddiant presennol i weithredwyr technolegau amgylcheddol, mewn prosiect a gefnogir gan gangen datblygu'r sector yr Adran Cyflogaeth a Dysgu (DEL).

Hwylusodd SummitSkills sawl grŵp ffocws i sefydlu gofynion cyflogwyr ar gyfer diweddaru'r hyfforddiant presennol. Yn seiliedig ar adborth gan gyflogwyr, ymgysylltwyd â darlithwyr mewn addysg bellach ar brosiect i ddiwygio cynnwys cyrsiau presennol ar gyfer technolegau dŵr solar, pympiau dŵr a biomas, gyda'r nod o gwblhau'r drafft terfynol ddiwedd Mehefin 2009.

I ymestyn datblygiad cyrsiau hyfforddiant ar gyfer technoleg amgylcheddol, er mwyn iddynt gynnwys y sgiliau arbenigol sy'n ofynnol gan benseiri, penodwyr a pheirianwyr, rydym wedi derbyn cyllid ychwanegol o £42,000 gan DEL ac yn bwriadu cwblhau'r gwaith hwn erbyn Mawrth 2010.

Am fwy o wybodaeth am waith SummitSkills yng Ngogledd Iwerddon, e-bostiwch ein rheolwr gweithrediadau Trevor Johnston: Trevor.johnston@summitskills.org.uk neu ewch i'n gwefan yn www.summitskills.org.uk/ni

Diwrnod Da i amrywiaeth

I alluogi grwpiau a dangynrychiolir i brofi'r ystod o gyfleoedd sydd ar gael mewn peirianneg gwasanaethau adeiladau, trefnodd SummitSkills yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr ddiwrnod arbennig yng Ngholeg Wolverhampton i roi blas i rai menywod ifanc lleol ar y mathau o swyddi y mae gan ein sector i'w cynnig.

Trefnodd y YWCA, elusen flaenllaw sy'n gweithio gyda menywod ifanc difreintiedig yng Nghymru a Lloegr, i'r grŵp, oedd rhwng 15–18 oed, brofi amrywiaeth o weithgareddau ymarferol yn adran adeiladu'r coleg. Yn ogystal â mynd i'r afael ag ychydig o dasgau plymo a weldio, fe wnaethon nhw fwynhau DVD SummitSkills DVD *A Good Day to Choose Your Career.*

Roedd sawl menyw sydd eisoes yn gweithio mewn gyrfaoedd llwyddiannus yn ein sector wrth law i siarad am eu swyddi ac i ateb cwestiynau. Roedd Pat McFadden, yr AS lleol a'r Gweinidog dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau hefyd yn bresennol er mwyn dangos ei gefnogaeth. Cefnogwyd y digwyddiad gan Wolverhampton Homes, Thomas Vale, Bullock Construction a Frank Haslam Milan.

Oherwydd i'r YWCA adrodd fod y diwrnod yn llwyddiant ysgubol o ran pawb a gymerodd ran, mae SummitSkills yn cynllunio digwyddiad tebyg ar gyfer diwedd yr hydref. Am fwy o wybodaeth, e-bostiwch ein rheolwr gweithrediadau gorllewin canolbarth Lloegr Kevin Dowd yn kevin.dowd@summitskills.org.uk

Yr Alban

Hyfforddiant rheoli am ddim

Mae SummitSkills yn yr Alban wedi gweithio mewn cydweithrediad â SELECT, SNIPEF a HVCA i ddatblygu cyfres o becynnau dysgu bach, syml wedi'u dylunio'n benodol ar gyfer goruchwylwyr a rheolwyr yn y sector peirianneg gwasanaethau adeiladau.

Yn seiliedig ar ymagwedd ddysgu fesul cam, mae'r offeryn arlein syml hwn yn darparu cyfres o fodiwlau bach sy'n hawdd eu dilyn ac y gellir eu defnyddio am ddim. Maent yn cwmpasu ystod eang o bynciau yn cynnwys cyllid, rheoli, marchnata, Cymwysterau Galwedigaethol yr Alban (SVQs), hyfforddiant a gwerthu, a gallent eich helpu chi i wella effeithlonrwydd eich busnes.

Mae pob un yn hawdd ei lawrlwytho ac yn cymryd oddeutu 20 munud i'w gwblhau (gallai llyfrau gwaith gymryd ychydig yn hwy). Maent yn rhad ac am ddim i'w defnyddio.Y cwbl yr ydym yn ei ofyn yw eich bod yn cofnodi pa rai yr ydych yn eu defnyddio ac yn adrodd yn ôl gyda'ch sylwadau i SummitSkills o fewn 12 wythnos.

I gael gwybod mwy ac i gael mynediad i restr lawn o'r pecynnau, ewch i'n gwefan yn www.summitskills.org.uk/scotland neu am fwy o wybodaeth e-bostiwch ein rheolwr gweithrediadau yn yr Alban, Ian Stirrat: ian.stirrat@summitskills.org.uk

Kevin McCallister, *CHN Gas Service & Maintenance Ltd*

Proffil cyflogwr

Kevin McCallister yw Rheolwr Masnachol CHN Gas Service & Maintenance Ltd yn Dudley, Gorllewin Canolbarth Lloegr. Mae'r cwmni yn darparu gwasanaethau gwres canolog a mesurau effeithlonrwydd ynni yn y DU.

Sut ydych chi'n cymryd rhan yng ngwaith SummitSkills?
Rwy' wedi bod yn frwd dros gael hyfforddiant sy'n addas at anghenion y diwydiant erioed, ac rwy'n gweithio'n agos â Summit-Skills i gyfnewid syniadau, gan ddarparu cyngor ac adborth rheolaidd.

Pam ei fod yn bwysig i chi eich bod yn cyfrannu?
Fe wnes i fwrw prentisiaeth crefft mewn plymo. Ar y pryd roedd yn cael ei alw yn grefft adeiladu, felly pan wnes i fy HNC roedd e mewn adeiladu, nid peirianneg gwasanaethau adeiladau. Dyna pam rwy'n teimlo'n gryf dros gyflogwyr yn cael mynegi'u barn am ba hyfforddiant sy'n addas ar gyfer eu cyflogeion gan fod hyn yn fuddsoddiad mawr i'r holl gwmniau sy'n cynnal hyfforddiant.

Sut mae eich cwmni yn cymryd rhan mewn hyfforddiant?
Mae CHN Group wedi bod yn ymrwymedig i hyfforddiant erioed. Pum mlynedd yn ôl buddsoddodd y grŵp £6m mewn sefydlu canolfan hyfforddiant flaengar yn cyflwyno gwasanaethu a chynnal plymo, gwresogi, a nwy hyd at NVQ Lefel 3. Rydym hefyd wedi cymryd gweithwyr aeddfed gafodd eu gwneud yn ddi-waith o'r diwydiannau gweithgynhyrchu a'u helpu i ailhyfforddi mewn rolau crefft medrus. Maent bellach yn gwneud cyfraniad mawr i lwyddiant ein cwmni.

Pam ei fod yn bwysig i gyflogwyr recriwtio a hyfforddi?
Mewn diwydiant hynod gystadleuol fel ein un ni, lle mae disgwyliadau ein cleientiaid yn uchel, mae'n bwysig cael gweithlu hyfforddedig medrus iawn i gynnal cyflwyno gwasanaeth o'r ansawdd uchaf.

Grŵp Gweithredu Dwyrain Lloegr

Gwahoddwyd Grŵp Gweithredu Dwyrain Lloegr i ymweld â'r Sefydliad Ymchwil Prydeinig (BRE) yn Watford i gynnig cyngor ar ddatblygiadau a gynlluniwyd ar gyfer technolegau adfywio newydd yn y rhanbarth.

Mae'r grŵp, a arweinir gan gyflogwyr y sector o dan stiwardiaeth y cadeirydd Mike Malina o Energy Solutions Associates, yn darparu arweiniad yn nwyrain Lloegr i sicrhau bod anghenion cyflogwyr y sector yn parhau fel prif ysgogwr sgiliau a datblygu. Ffocws yr ymweliad â BRE oedd cyfnewid syniadau ar gynaliadwyedd ac adfywiad, sy'n ffurfio rhan allweddol rôl BRE i gefnogi busnesau i ddatblygu technolegau carbon isel ar gyfer yr amgylchedd adeiledig.

Dywedodd Mike: "Mae Grŵp Gweithredu Dwyrain Lloegr yn chwarae rôl allweddol wrth sicrhau y gallwn ddatblygu'r gweithlu amrywiol a chymwys sydd ei angen ar gyfer y dyfodol. O dan arweiniad cyflogwyr, mae'n canolbwyntio ar gynghori a llunio esblygu sgiliau ar gyfer peirianneg gwasanaethau adeiladau."

Gyda'r heriau y mae busnesau yn eu hwynebu yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae'r grŵp yn galluogi cyflogwyr y sector yn y dwyrain i ganfod mwy am gyllid rhanbarthol, nodi darparwyr hyfforddiant lleol a dewis datblygiad sgiliau penodol i'w helpu i gystadlu'n fwy effeithiol. Bydd gwell sgiliau – yn enwedig y rheiny mewn technolegau sy'n esblygu – yn helpu i roi peirianneg gwasanaethau adeiladau ar y blaen o safbwynt adferiad y rhanbarth.

I gael gwybod mwy am weithgareddau'r grŵp, e-bostiwch reolwyr gweithrediadau SummitSkills: Bob Blake yn bob.blake@summitskills.org.uk neu Ivor Rowley yn ivor.rowley@summitskills.org.uk

Am fanylion eich grŵp gweithredu SummitSkills lleol ewch i'n gwefan yn www.summitskills.org.uk/ig

Datblygiadau AU yng ngogledd orllewin Lloegr

Arweiniodd gweithredu ein Cytundeb Sgiliau Sector (CSS) at SummitSkills yn datblygu manyleb i ddangos i ddarparwyr Addysg Uwch (AU) y sgiliau lefel uwch y mae eu hangen ar gyflogwyr yn ein sector.

Mae hyn wedi galluogi darparwyr AU i ystyried gofynion busnesau mewn peirianneg gwasanaethau adeiladau, fel rhan o'r prosiect NW Higher Level Skills Pathfinder (NW HLSP), a gyflwynwyd gan Sefydliad Prifysgolion y Gogledd Orllewin (NWUA) mewn cydweithrediad â sawl Cyngor Sgiliau Sector, yn cynnwys SummitSkills. Nodau NW HLSP yw cynyddu ymgysylltiad cyflogwyr mewn AU, ac i helpu datblygu gallu darparwyr AU i ymateb i alw gan gyflogwyr.

Mae'r NW HLSP hyd yma wedi ariannu dau brosiect Gwasanaethau Adeiladau. Mae Prifysgol John Moores Lerpwl wedi datblygu Gradd Sylfaen, BSc a BEng i'r sector, ac yn ddiweddar mae wedi ennill achrediad Sefydliad Siartredig Peirianneg Gwasanaethau Adeiladau am ei rhaglenni. Mae Prifysgol Central Lancashire hefyd wedi datblygu gradd Sylfaen, fydd yn ymestyn ei darpariaeth Gwasanaethau Adeiladau CIBSE achrededig bresennol. Bydd yr holl gyrsiau yn weithredol o fis Medi 2009.

Datblygiad pellach
Wedi'i ariannu'n wreiddiol gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr, mae'r prosiect wedi derbyn arian ychwanegol gan Asiantaeth Datblygu Rhanbarthol y Gogledd Orllewin a chafodd ei ailenwi yn Bartneriaeth Sgiliau Lefel Uwch NW i gynrychioli cydweithrediad ei bartneriaid newydd ac esblygiad y rhaglen.

Mae SummitSkills wedi nodi'r angen am fwy o hyfforddiant camau bach ar gyfer meysydd penodol fel technolegau amgylcheddol, a rheoli ac arweinyddiaeth. Mae SummitSkills yn gweithio ar hyn o bryd gyda'r NW HLSP i werthuso ceisiadau am arian ar gyfer datblygiad pellach yn y meysydd hyn, fydd yn ychwanegu at y blaenoriaethau a nodwyd yn ein CSS.

Am fwy o wybodaeth am waith SummitSkills yng ngogledd orllewin Lloegr, e-bostiwch ein rheolwr gweithrediadau lleol Rob Wellman: rob.wellman@summitskills.org.uk

Cymru

Arian i uwch-sgilio yn ystod y dirywiad

Mae Summitskills yng Nghymru yn annog busnesau yn ein sector i ganfod mwy am ProAct, cynnig arian am flwyddyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru sydd wedi'i ymestyn i gynnwys peirianneg gwasanaethau adeiladau.

Gall ProAct ddarparu cefnogaeth ariannol i gyflogwyr yn ein sector yng Nghymru sy'n wynebu anawsterau yn ystod y dirwasgiad. Mae'r cynllun yn anelu at helpu busnesau i baratoi ar gyfer adferiad economaidd drwy uwchsgilio staff ar waith amser byr a chadw gweithwyr medrus y byddent fel arfer yn cael eu gwneud yn ddi-waith.

Sefydlwyd y rhaglen yn dilyn y Drydedd Uwchgynhadledd Economaidd a gadeiriwyd gan Brif Weinidog Cymru, lle nododd y gymuned fusnes angen i ddarparu cefnogaeth i gyflogwyr sy'n dymuno darparu sgiliau ychwanegol i gyflogwyr, gan eu galluogi i gadw pobl fedrus wrth i ni ddod allan o'r dirwasgiad.

Mae hyn yn ategu rhaglen ReAct a sefydlwyd i gynorthwyo gweithwyr a gollodd eu gwaith yng Nghymru ddod o hyd i swydd newydd. Yn ogystal ag ymdrechu i atal achosion o golli gwaith, mae ProAct yn anelu at wella sylfaen sgiliau cwmnïau Cymreig drwy ddarparu hyfforddiant ychwanegol i weithlu'r wlad.

Yn amodol ar feini prawf cymhwyso penodol, mae ProAct yn cynnig hyd at £2,000 y person tuag at gostau hyfforddiant, cymhorthdal cyflog o hyd at £2,000 yn ystod hyfforddiant, yn ogystal â chyngor gwerthfawr i sefydlu cynllun hyfforddiant unigol.

Am fanylion pellach, e-bostiwch reolwr gweithrediadau SummitSkills yng Nghymru, Kathryn Hopkins-Morgan: kathryn.morgan@summitskills.org.uk neu ewch i'n gwefan yn www.summitskills.org.uk/wales

Train to Gain

Menter gan y Cyngor Dysgu a Sgiliau (LSC) yw Train to Gain i godi lefelau sgiliau cyflogeion nad oes ganddynt gymhwyster Lefel 2 o leiaf ar hyn o bryd. Mae SummitSkills yn gweithredu'r cynllun hwn ar gyfer peirianneg gwasanaethau adeiladau.

I helpu busnesau sy'n ymladd y dirwasgiad wella sgiliau sylfaenol eu gweithlu, rydym yn gweithio'n agos gyda thri o'r darparwyr hyfforddiant sector – BEST, JTL a Quinn Training Services – i symleiddio'r broses i gyflogwyr, gan arbed amser, lleihau costau a'i wneud yn haws rhoi mynediad i weithwyr i'r cymwysterau hyn. Dyma pam mae Train to Gain wedi cael ei ddiwygio. Gall aseswyr nawr ymweld ag eiddo cwmnïau er mwyn asesu nifer o gyflogeion ar y safle, lleihau'r gwaith papur a threfnu ariannu posib. Yna bydd gweithwyr cymwys yn derbyn SKILLcards priodol i gadarnhau eu lefel o gymhwyster.

Mae SummitSkills yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda chyflogwyr, darparwyr hyfforddiant a'r LSC i nodi sut gellir teilwra arian i gwrdd ag anghenion sgiliau penodol ein sector. Mae hyn yn benodol o bwysig lle y gallai fod angen modiwlau bach, ychwanegol mewn meysydd fel ynni adnewyddadwy, rheoli ac arweinyddiaeth, neu ailadrodd hyfforddiant Lefel 2, felly byddem yn hoffi cael eich barn.

Os hoffech chi ddweud wrthym ni pa sgiliau peirianneg gwasanaethau adeiladau y dylid eu cefnogi gan Train to Gain, e-bostiwch David Cox yn SummitSkills: david.cox@summitskills.org.uk .Gallwch ganfod mwy ar ein gwefan yn www.summitskills.org.uk/t2g neu Train to Gain yn www.traintogain.co.uk

M&E – y digwyddiad peirianneg gwasanaethau adeiladau

Mae M&E, y digwyddiad blynyddol poblogaidd dros ben i weithwyr proffesiynol y diwydiant mewn peirianneg gwasanaethau adeiladau, yn cynnal rhaglen ddeuddydd newydd o gynnwys addysgol ar gyfer 2009.

M&E
THE BUILDING SERVICES EVENT
7-8 OCTOBER 2009 LONDON OLYMPIA
www.buildingservicesevent.com

Mae'r Sustainable Reality Seminar Series, a noddir gan SummitSkills, yn rhan o'r rhaglen hynod lwyddiannus Training Academy sy'n cynnwys cyflwyniadau, astudiaethau achos, trafodaethau ac arweiniad cam wrth gam gan arbenigwyr y diwydiant. Mae'r sesiynau hyn yn edrych ar y ffyrdd y mae contractwyr, ymgynghorwyr, rheolwyr adeiladau a phreswylwyr oll yn dylanwadu'n uniongyrchol ar ddatblygiad adeiladau masnachol.

Mae'r digwyddiadau hyn yn cael eu cynnal ar 7 ac 8 Hydref yn Olympia yn Llundain. Gallwch ganfod mwy am y rhaglen lawn o weithgareddau a chofrestru am ddim ar wefan M&E: www.buildingservicesevent.com

Penodiadau newydd

Angela Buckingham – Uwch Gynorthwy-ydd Gweinyddol

Mae Angela yn ymuno â ni yn dilyn sawl blwyddyn mewn gweinyddu fflydoedd ceir, gan ddod â chyfoeth o sgiliau pobl i ategu ei rôl bresennol yn rhan o'n tîm gweinyddol yn y pencadlys. Mae'n mwynhau rôl amrywiol a heriol, yn cynnwys cefnogi Neil Collishaw i gydlynu a gweinyddu Skill M&E, cyfres cystadlaethau sgiliau blynyddol SummitSkills.

Jodie Cooke – Ymchwilydd

Mae gan Jodie gefndir cadarn mewn ymchwil cysylltiedig â'n sector, wedi gweithio mewn rolau gweithredol a rheoli i'r Energy Saving Trust a chwmni adeiladwyr cenedlaethol yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Bydd ei BA (anrh) mewn rheoli marchnata ac MA mewn ymchwil cymdeithasol a marchnad cymwysedig yn ddefnyddiol iawn ar gyfer y prosiectau bydd Jodie yn ymgymryd â hwy gyda Dr. Mike Hammond o SummitSkills.

John Wilcock – Rheolwr Prosiect Cynorthwyol

Daeth John i SummitSkills o rôl gyda Chanolfan Achrededig Arbenigwyr Cenedlaethol ConstructionSkills fel dilysydd mewnol. Cyn hynny, mwynhaodd yrfa hir a disglair yn y diwydiant gwasanaethau mecanyddol cyn dod yn uwch ddarlithydd mewn cyfadran adeiladu coleg, lle y gweithiodd am 25 mlynedd. Mae John yn rhan o'r tîm datblygu yn SummitSkills, yn cefnogi ein cystadlaethau sgiliau Skill M&E.

Cymryd rhan

Rydym am glywed gennych chi – os ydych yn fusnes mewn peirianneg gwasanaethau adeiladau, mae angen eich barn arnom i ddatblygu sgiliau a hyfforddiant i'r sector. Cysylltwch â ni i weld sut gallwch chi gyfrannu ac elwa:

Anfonwch eich manylion atom drwy:

- Ffacs: cwblhewch eich manylion a ffacsio'r dudalen hon i 01908 303989
- Ffôn: 01908 303960
- Ebost: enquiries@summitskills.org.uk

Enw: .....

Cwmni: .....

Tref: .....

Ffôn: .....

SummitSkills Vega House, Opal Drive, Fox Milne, Milton Keynes MK15 0DF
T: 01908 303960 • Ff: 01908 303989 • www.summitskills.org.uk • e-bost enquiries@summitskills.org.uk • Llinell Gwybodaeth Gyrfaoedd: 08000 688 336